Gweiddi

# Tasg 2

**(Heriol, sbardun 3)**

1. Edrychwch ar ystadegau'r Gymdeithas Frenhinol dros Atal Damweiniau eto. Yna, llenwch y bylchau yn y frawddeg hon.

   Am bob .............. mya yn gynt y mae gyrwyr yn gyrru, mae siawns cerddwr o ddod drwy'r ddamwain yn syrthio .............%

2. Edrychwch ar y frawddeg hon eto:

   - Yn ôl ystadegau'r llywodraeth, mae 58% yn torri'r terfynau cyflymder ar ffyrdd 30 mya. Mae 57% yn torri'r terfyn cyflymder ar draffyrdd (70 mya).

   Dychmygwch eich bod yn ceisio ysgrifennu taflen am ddiogelwch ar y ffyrdd. Ydych chi'n gallu mynegi'r ystadegau sydd yn y frawddeg hon mewn ffordd arall?

   e.e. Mae (bron i) 1 o bob ........... gyrrwr yn ....

3. Nawr, edrychwch ar y frawddeg hon:

   - Mae tri chwarter y gyrwyr sy'n aelodau o'r AA (cymdeithas foduro) o blaid camerâu cyflymder.

   Defnyddiwch ganrannau (%) i gyflwyno'r un wybodaeth.